# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn via video conference, Dydd Iau, 10 Mawrth 2022 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Gwyneth Ellis, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Graham Timms (Is–gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd).

**Aelodau Arweiniol** (ar wahoddiad y Pwyllgor):
Y Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd)
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol)
Y Cynghorydd Mark Young (Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad)

**Unigolyn nad yw'n aelod o'r pwyllgor a oedd yn llofnodwr i'r Cais Galw i Mewn (eitem busnes 5):** Y Cynghorydd Rhys Thomas

**Unigolion nad ydynt yn aelod o'r pwyllgor ond sy'n aelodau o'r Grŵp Tasg a Gorffen (eitem busnes 6):** Y Cynghorwyr Barry Mellor a Peter Scott

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Martyn Holland ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (HR), Aelod Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai / Landlord Corfforaethol (DL), Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd (LW-J), Rheolwr Perygl Llifogydd (WH), Rheolwr Adain – Rheolwyr Rhwydwaith (TT), Swyddog Cynllunio (GC), Rheolwr Datblygu a Rheoli (PM), Swyddogion Cynllunio a Chydymffurfio (AT a SW), Cydlynydd Craffu (RhE), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (SLW, KJ a RhT-J) ynghyd â Fergus O'Brien yn cynrychioli Dŵr Cymru Welsh Water

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Hugh Irving.

Roedd y Cynghorydd Melvyn Mile, un o lofnodwyr y cais galw i mewn, hefyd wedi anfon ei ymddiheuriadau oherwydd bod ganddo apwyntiad blaenorol, felly hefyd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau.

Roedd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Dŵr Cymru a Waterco wedi anfon eu hymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol ar gyfer eitem fusnes 6: 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Glannau Afonydd' o ganlyniad i ymrwymiadau blaenorol.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad ag unrhyw eitem.

Cynghorwyd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies nad yw cynorthwyo cymydog â materion yn ymwneud â llifogydd yn rhinwedd ei swydd fel aelod ward yn fater y mae angen i ddatgan fel budd personol yn eitem 6.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi'u codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022. **Penderfynwyd**: ***y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.***

Ni chodwyd unrhyw fater cysylltiedig â chynnwys y cofnodion.

## 5 ADOLYGIAD O BENDERFYNIAD Y CABINET MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LESDDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL

Cyn i'r drafodaeth ar yr eitem hon o fusnes ddechrau gadawodd y Cynghorydd Huw Williams y Gadair oherwydd ei fod yn un o lofnodwyr y cais galw i mewn ac am y rheswm hwnnw roedd yn ofynnol iddo gyfrannu at y drafodaeth. Cymerodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Graham Timms, y Gadair ar gyfer yr eitem hon o fusnes.

Dywedodd yr Is-gadeirdd wrth y Pwyllgor bod rhybudd o 'alw i mewn'' wedi'i gyflwyno gan 6 chynghorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Roedd y rhybudd yn galw am adolygiad gan un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaeth y Cabinet ar 14 Chwefror 2022 mewn perthynas â chynllun gwneud penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir i dibenion amgylcheddol ac ecolegol. Aeth ymlaen i egluro y cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 17 Chwefror 2022. Mae'r weithdrefn 'galw i mewn' yn caniatáu 5 diwrnod gwaith i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn' yn gofyn bod Craffu'n adolygu'r penderfyniad. Unwaith y derbynnir rhybudd galw i mewn nid oes gan y gwneuthurwr penderfyniadau hawl i roi'r penderfyniad ar waith hyd nes bod Craffu wedi adolygu'r penderfyniad ac wedi adrodd yn ôl i'r gwneuthurwr penderfyniadau ar ganlyniad yr adolygiad. Mae disgwyl i Craffu gynnal cyfarfod i adolygu'r penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn hysbysiad dilys o alw i mewn. Fodd bynnag oherwydd nad oedd unrhyw frys uniongyrchol i weithredu'r penderfyniad, roedd y Cabinet, sef

y gwneuthurwr penderfyniad, wedi cytuno y gellid oedi'r adolygiad tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Craffu, sef y cyfarfod hwn. Cyflwynodd y Cynghorydd Merfyn Parry rybudd o 'alw i mewn' yn electronig ar 23 Chwefror. Cefnogwyd y cais (drwy e-byst unigol) gan 5 cynghorydd arall nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, sef y Cynghorwyr David G Williams, Melvyn Mile, Huw O Williams, Rhys Thomas a Peter Evans, gyda phob un ohonynt wedi'u gwahodd i fynychu'r cyfarfod Pwyllgor i amlinellu eu rhesymau dros gefnogi'r cais galw i mewn.

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu, Rhian Evans, yr adroddiad a'r atodiadau (wedi'u dosbarthu eisoes) a oedd yn egluro'r cefndir i benderfyniad y Cabinet a'r sail dros ei alw i mewn am adolygiad gan Bwyllgor Craffu. Aeth ymlaen wedyn i sôn am y drefn a fyddai'n cael ei dilyn yn y cyfarfod i ystyried y penderfyniad a alwyd i mewn am adolygiad.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merfyn Parry, fel llofnodwr arweiniol y galw i mewn, i gyflwyno rhesymau'r llofnodwyr dros y cais am adolygiad o'r penderfyniad. Yn ei anerchiad dywedodd bod gan y llofnodwyr bryderon y byddai'r Cyngor, pe cadarnhawyd y penderfyniad, mewn sefyllfa i 'gipio tir' mewn ocsiwn drwy o bosibl gynnig mwy amdano na ffermwyr a pherchnogion tir lleol. Er yn deall na fyddai gan y Cyngor ddiddordeb mewn prynu'r tir amaethyddol gorau, roeddent fodd bynnag yn teimlo bod angen trafod penderfyniadau i brynu tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol gydag aelodau lleol a'r Grwpiau Aelodau Ardal Lleol cyn gwneud unrhyw gais, gan ei bod yn bwysig i'r Awdurdod ddeall y wybodaeth leol ac angen lleol cyn gwneud cais am barsel o dir.

Yna gwahoddwyd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, i grynhoi'r drafodaeth a gafwyd a'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet at 15 Chwefror 2022. Rhoddodd amlinelliad o'r ymgynghori a oedd wedi digwydd hyd yma a chadarnhaodd nad oedd unrhyw gynlluniau i brynu tir amaethyddol Gradd 1 i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol mai pwrpas y broses gwneud penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig i'r diben penodol hwn oedd i wneud newid bach i'r cynllun presennol er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu'n gynt yn y dyfodol. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai aelodau lleol yn cael eu hymgynghori â hwy'n awtomatig mewn perthynas â phob caffaeliad arfaethedig fel mater o drefn oni bai bod amser yn arbennig o brin, a hyd yn oed wedyn byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gysylltu ag aelod(au) lleol. Oherwydd y gellid rhoi tir ar ocsiwn ar unrhyw bryd mae'n rhaid delio â'r broses yn gyflym dros ben. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai'r Cyngor yn cymryd rhan mewn 'rhyfel ceisiadau' gyda phrynwyr allanol gan y byddai'r Prisiwr Dosbarth yn gosod pris uchaf na all y Cyngor fynd drosto oherwydd bod yn rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn gwneud defnydd doeth o arian cyhoeddus. Pwysleisiwyd fodd bynnag, os yw'r Cyngor i gyrraedd ei darged di-garbon net, y bydd yn angenrheidiol prynu tir i'w osod yn erbyn ei ddefnydd o garbon.

Tynnodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio sylw'r aelodau at yr adroddiad a'r Asesiad o Effaith ar Les sy'n datgan sut yr ymgynghorwyd ag aelodau lleol a rhanddeiliaid lleol eraill ynglŷn â thir addas i ddibenion dal a storio carbon a

gwelliannau ecolegol. Hyd yma mae pob un ond un o'r safleoedd sydd wedi'u dynodi fel rhai a fydd o bosibl yn addas i ddibenion dal a storio carbon wedi'u cynnig gan gymunedau neu aelodau lleol.

Rhoddodd y Cynghorydd Merfyn Parry fwy o wybodaeth ynghylch y rhesymau pam yr oedd ef a'i gyd-aelodau wedi galw penderfyniad y Cabinet i mewn:

- roeddent yn teimlo bod y broses penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig i'r diben hwn yn ffordd o osgoi'r broses ddemocrataidd, er enghraifft y defnydd o gyfarfodydd y Grŵp Rheoli Asedau i drafod unrhyw bryniannau arfaethedig a'r cyfiawnhad drostynt.
- roeddent yn cydnabod yr angen am wneud penderfyniadau cyflymach o ran prynu tir ond yn teimlo y gallai Cyngor Sir Ddinbych o bosib gyflymu'r prosesau presennol ar gyfer gwneud y fath benderfyniadau. Nid yw ocsiynau tir yn digwydd dros nos, mae asiantau'n hysbysebu parseli o dir ar werth am nifer o wythnosau cyn y cynhelir ocsiwn neu cyn i dendrau gau, sydd yn rhoi digon o amser i'r Cyngor wneud penderfyniad ynghylch pryniant posibl. Efallai y bydd achlysuron prin pan fydd perchennog preifat yn rhoi darn o dir ar y farchnad am werthiant cyflym, ond anaml iawn y bydd hyn yn digwydd.
- roedd yr adroddiad i'r Cabinet a'i atodiadau'n cyfeirio at gynnwys aelodau lleol, Cynghorau Cymuned a Grwpiau Aelodau Ardal, fodd bynnag mae rhai o'r cyfeiriadau hyn yn nodi mai cael eu hysbysu, nid eu hymgynghori â nhw, fyddai'r aelodau. Gellid dehongli hyn i olygu y bydd aelodau lleol yn cael eu hysbysu ynghylch pryniant tir ond na fyddent hwy na'r Grŵp Ardal Aelodau Lleol yn cael unrhyw fewnbwn na dylanwad ar y broses. Byddai'n dal yn bosibl gwneud penderfyniadau cyflym drwy gynnwys aelodau.
- mae'n ymddangos bod y Cyngor yn bryderus na all gwrdd a'i darged di-garbon net i ddiwallu gofynion her yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol heb brynu parseli o dir. Os mai dyma yw'r achos yna mae'r Cyngor mewn perygl o gael ei weld fel un sy'n mabwysiadu ymdriniaeth debyg i rai corfforaethau cenedlaethol a rhyngwladol penodol drwy geisio mynd i'r afael â'r broblem o'i ôl-troed carbon drwy brynu tir i blannu coed yn lle mynd ati'n weithredol i fabwysiadu mesurau ac arferion carbon isel.
- roeddent yn bryderus pe bai asiantau lleol yn dod yn ymwybodol fod gan y Cyngor gyllideb ddynodedig ar gyfer prynu tir i'r pwrpas hwn, ei bod y bosibl y bydd gwerth tir o'r fath yn chwyddo. Pe bai hynny'n digwydd byddai'n niweidiol i ffermwyr mynydd a fyddai'n cael eu prisio allan o'r farchnad pe baent yn dymuno prynu parseli o dir ger eu daliadau er mwyn gwella ac ehangu eu busnes.
- ychydig iawn o gyfeiriad sydd yn yr adroddiad at yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymarfer ymgynghori gan Undebau Ffermio a Chlybiau Ffermwyr Ifanc. Faint oedd wedi ymateb a beth oedd cynnwys yr ymatebion hynny, ac a roddwyd digon o amser a gwybodaeth iddynt allu darparu ymatebion cynhwysfawr?

Gwahoddodd yr Is-gadeirydd lofnodwyr eraill y cais galw i mewn i annerch y Pwyllgor ynghylch eu pryderon a'u rhesymau dros y penderfyniad galw i mewn. Am nad oedd yn bosibl i'r Cynghorydd Melvyn Mile fynychu'r cyfarfod roedd wedi anfon datganiad ysgrifenedig a ddarllenwyd gan yr Is-gadeirydd. Yn ei ddatganiad dywedodd y Cynghorydd Mile:

- ei fod yn sylweddoli bod y Cyngor angen cyflymu prosesau caffael tir ond bod ganddo bryderon na roddwyd digon o amser i ymgynghori ag aelodau lleol ar y mater.
- er na fyddai'r Cyngor yn prynu tir ffermio o'r safonau uchaf i blannu coed, gallai cynhyrchiant bwyd fod yr un mor bwysig yn y dyfodol i leihau allyriadau carbon felly mae'n rhaid i ffermwyr gael cyfle teg i brynu tir.
- mae aelodau lleol yn adnabod eu hardaloedd a'u preswylwyr ac mae angen sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gaffaeliad posibl yn eu hardal er mwyn iddynt fod yn rhan o unrhyw drafodaethau ar y camau cynharaf.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Williams:

- mai ychydig iawn o dir amaethyddol Gradd 1 sydd ar gael ac y dylai pobl fod yn ymwybodol o hynny.
- mae ffermwyr a pherchnogion tir preifat eisoes yn ymwybodol o'u dyletswyddau dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol ac yn plannu coed eu hunain ac yn cefnogi cynlluniau amgylcheddol ble bynnag bosibl;
- mae angen cyflymu prosesau o fewn y Cyngor.
- Mae angen hefyd codi proffil cynhyrchu bwyd a diogelwch ar frys yn enwedig o ystyried effaith posibl y rhyfel yn Wcráin a chyflenwad y byd o rawn.

Dywedodd y Cynghorydd Rhys Thomas mai ei bryderon ef ynglŷn â'r penderfyniad oedd:

- nad yw polisïau lleihau carbon y Cyngor yn mynd i lwyddo.
- y gallai arwain at or-chwyddo gwerth tir amaethyddol o radd is ar y farchnad (graddau 4 a 5) ac y bydd felly y tu hwnt i gyrraedd ffermwyr lleol.
- mae posibilrwydd y bydd dylanwad aelodau lleol a grwpiau aelodau ardal yn cael ei ymyleiddio. Cynghorwyr lleol yw cynrychiolwyr trigolion lleol felly dylent fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau yn hytrach na chael gwybod beth oedd y canlyniad ar y diwedd heb fod wedi cael unrhyw gyfle i ddylanwadu arno.
- nid oes gan Wasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor ddigon o staff i roi gwybod am gaffaeliadau addas posibl nac i gefnogi cyflawniad uchelgeisiau ecolegol a lleihau carbon y Cyngor.

Nid oedd y Cynghorydd Peter Evans na'r Cynghorydd Dave Williams yn bresennol ac nid oeddent wedi anfon unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig.

Cyn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu a ddylid argymell bod y Cabinet yn adolygu ei benderfyniad gwreiddiol yng ngoleuni'r pwyntiau a godwyd, gwahoddodd yr Is-gadeirydd yr Aelodau Arweiniol a'r Swyddogion i ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a'r Aelod Arweiniol Eiddo a Cyllid:

- bod lefelau staffio yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad ar hyn o bryd yn ddigonol i gefnogi gwaith ar yr hinsawdd a gwelliannau ecolegol. Fodd bynnag roedd pwysau posibl wrth symud ymlaen eisoes wedi'i adnabod a bydd angen rheoli hyn drwy brosesau gosod cyllideb y Cyngor.

- cafwyd sicrwydd pellach y byddai ymgysylltiad y Prisiwr Dosbarth â'r broses yn sicrhau na fydd y Cyngor yn talu dros bris y farchnad am unrhyw dir. Byddai hefyd yn sicrhau nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am chwyddo pris unrhyw dir.
- cydnabuwyd nad oedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl ar yr adborth a gafwyd fel rhan o'r broses ymgysylltu. Er nad oedd nifer yr ymatebion yn uchel, roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol. Cymerir yn gyffredinol bod cyfraddau ymateb isel i ymarferion ymgynghori'n golygu nad yw'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn erbyn y cynigion a gyflwynwyd, mae pobl a sefydliadau'n fwy tebygol o ymateb os ydynt wirioneddol yn erbyn neu os oes ganddynt bryderon am gynigion.
- dywedwyd y byddai mewnbwn y Grwpiau Ardal a'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i osod y cyfeiriad strategol a phennu'r egwyddorion er mwyn darparu'r polisi, nhw fyddai'n edrych ar rinweddau prynu parseli unigol o dir. Dyma felly pam y mae angen cyflymu prosesau'r Cyngor mewn perthynas â hwyluso arferion prynu tir;
- cadarnhawyd nad oes unrhyw un maes o waith ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau y bydd y Cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau di-garbon net. Byddai angen ystod o wahanol gynlluniau e.e. gwella fflyd y Cyngor, dulliau lleihau carbon yn adeiladau'r Cyngor ac ati. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod gan, ac y bydd gan yr Awdurdod adeiladau, yn golygu y bydd ganddo ôl-troed carbon gan fod carbon wedi'i ymgorffori yn yr adeiladau. Cafodd yr angen i'r Awdurdod brynu tir ychwanegol i bwrpas dal a storio carbon ei amlygu yn ystod siwrnai'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol drwy brosesau democrataidd y Cyngor gan na fyddai'r Cyngor yn gwireddu ei amcanion di-garbon net heb hynny; a
- chydnabuwyd y gallai prisiau tir godi gyda'r Cyngor yn brynwr ychwanegol posibl yn y farchnad, ond nid y Cyngor fyddai'r unig brynwr ychwanegol yn y farchnad. Bydd prynwyr masnachol hefyd yn dod i'r farchnad a phe bai prisiau'n cael eu gwthio i fyny, awdurdodau lleol fyddai'r rhai cyntaf i gael eu gwasgu allan o'r strwythur prisio gan nad oes hawl ganddynt i wario dros werth y farchnad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, y Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth, y Pennaeth Cyllid ac Eiddo a'r Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Tai (Landlord Corfforaethol y Cyngor):

- er na chynhyrchodd yr ymarfer ymgynghori ar y cynigion nifer fawr o ymatebion, mae swyddogion ar hyn o bryd yn cysylltu ag unigolion i geisio eu barn ar y cynigion; dywedwyd mai un o nodweddion calonogol yr ymatebion a gafwyd oedd eu bod yn croesawu cyfranogiad y Cyngor mewn rheolaeth tir gan eu bod yn gweld perchnogaeth gyhoeddus tir yn stiwardiaeth gyfrifol.
- cydnabuwyd bod angen mwy o waith cysylltiedig ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol ynghylch yr hyn sydd ei eisiau arnynt, yr hyn sy'n gweithio'n dda iddyn nhw a pha benderfyniadau ymarferol y mae angen eu cymryd.
- gwerthfawrogir pryderon aelodau ynghylch capasiti o fewn y Gwasanaethau Cefn Gwlad i reoli'r rhaglen newydd. Roedd nifer o drafodaethau eisoes wedi digwydd yn y Bwrdd Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol ar y mater

ac nid oes unrhyw broblemau capasiti ar hyn o bryd er y bydd y sefyllfa'n cael ei monitro wrth i ni symud ymlaen;

- cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cydnabod y bydd angen adnoddau ychwanegol bob blwyddyn am 9 mlynedd er mwyn darparu'r rhaglen. Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2022/23 mae staffio ychwanegol wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyflawni elfennau arbedion effeithlonrwydd y rhaglen. Bydd darpariaeth y rhaglen yn nodwedd o broses gosod y gyllideb y Cyngor am oes y rhaglen;
- cafwyd sicrwydd bod matrics yn ei le a fyddai'n atal prynu tir amaethyddol o safon dda i ddibenion plannu coed. Ròl y Landlord Corfforaethol mewn perthynas â phrynu tir yw sicrhau bod cyfiawnhad dilys a sail dros ei brynu gyda chyllid cyhoeddus. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r safleoedd arfaethedig i'w prynu'n cael eu cynnig gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad. Defnyddir y Cynllun Dirprwyo dim ond os a phan y bydd yr angen yn codi, a byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth y Cabinet. Ysbryd y cynllun dirprwyo penderfyniadau arfaethedig yw galluogi'r Cyngor i brynu'r math cywir o dir am y rhesymau cywir pan fo angen iddo wneud hynny; ac
- Mae'r Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu grŵp ffocws gyda'r undebau ffermio a'r Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc fel ffordd o ymgysylltu â nhw ar wahanol faterion.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor ac arsylwyr ofyn cwestiynau ategol i'r Aelodau Arweiniol a'r swyddogion a rhoddwyd yr atebion canlynol:

- cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd/Swyddog Monitro na fydd angen newid Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd Grwpiau Ardal Aelodau brys/arbennig oherwydd nad yw'r GAA yn bwyllgorau gwneud penderfyniadau ond yn hytrach yn fforymau trafod ac ymgynghori
- cynghorodd y Rheolwr Cefn Gwlad a Gwasanaethau Treftadaeth bod 6 dosbarth o safonau tir amaethyddol yn amrywio o 1 (rhagorol) i 5 (gwael iawn) - mae dau ddosbarth gradd 3 (3a - da i ganolig a 3b - canolig)

Diolchodd yr Is-gadeirydd i holl lofnodwyr yr alwad i mewn am amlinellu eu rhesymau dros geisio adolygiad o benderfyniad y Cabinet ac i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am ymateb ac ateb y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth, cyn mynd ymlaen i ofyn i'r Pwyllgor benderfynu, ar ôl gwrando ar y sylwadau a wnaed, a oedd yn dymuno cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i ofyn iddo ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol. Pwysleisiodd os oedd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol bod angen i'r aelodau nodi'n glir y rhesymau pam y dylid ei adolygu.

Roedd y Cynghorydd Gwyneth Elis o'r farn, oherwydd bod yr Aelodau'n teimlo mor gryf ynghylch y mater, y dylid gofyn i'r Cabinet adolygu'r penderfyniad gan ystyried pryderon yr aelodau ynglŷn ag ymgynghori â nhw, ceisio sicrwydd y bydd yr aelodau lleol yn cael eu hymgynghori'n llawn â nhw fel rhan o'r broses a sicrhau mai caffael tir i ddibenion dal a storio carbon yw'r peth cywir i'w wneud a pheidio a'i ddefnyddio fel modd o lenwi bylchau ym mesurau lleihau carbon y Cyngor ei hun. Cynigiodd y Cynghorydd Ellis y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Merfyn Parry. Yna cafwyd trafodaeth bellach

ar eiriad terfynol yr argymhellion i'r Cabinet, cyn i'r Cynghorydd Merfyn Parry gynnig y geiriad ac i'r Cynghorydd Huw Williams ei eilio.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ac ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd iddo:

***Penderfynwyd** yn unfrydol gofyn i'r Cabinet yn y cyfarfod priodol nesaf ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol ynghylch y Cynllun Gwneud Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) i ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol.*
***Gyda'r nod o gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer prynu tir -***

***(i)** **y dylai'r Cabinet, cyn adolygu ei benderfyniad, weithio gyda'r Undebau Ffermio a'r Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc i geisio ymatebion cynhwysfawr gan y sefydliadau hynny ar y Cynllun Arfaethedig***

***(ii)** **bod y Cabinet y newid geiriad y Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig arfaethedig (ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig) sy'n ymwneud â chysylltu ag aelodau lleol a Grwpiau Ardal Aelodau fel ei fod yn darllen: ymgynghori/ymgynghoriad yn hytrach na hysbysu/hysbysiad';***

***(iii)** **bod adolygiad yn cael ei gynnal ar yr adeg priodol o adnoddau staffio Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor i sicrhau bod ganddo gapasiti digonol i ymdrin â'r dyletswyddau ychwanegol a fydd yn disgyn ar y gwasanaeth yn y dyfodol cysylltiedig a gwaith storio carbon a gwelliannau ecolegol; a***

***(iv)** **bod gwybodaeth fanwl ar raddio tir amaethyddol yn Sir Ddinbych (yn cynnwys mapiau darluniadol) yn cael eu darparu i'r gwneuthurwyr penderfyniadau wrth adolygu'r penderfyniad***

Llywyddodd y Cadeirydd dros y cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen.

**6 GRŴP TASG A GORFFEN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD A PHERCHNOGAETH GLANNAU AFONYDD**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad (eisoes wedi'i ddosbarthu) yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Glannau Afonydd a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar weithgareddau'r Grŵp. Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd adroddiad terfynol y Grŵp Tasg a Gorffen a oedd yn rhoi manylion ei gasgliadau a'i argymhellion ac yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer yr argymhellion hynny.

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Cynghorydd Huw Williams (Cadeirydd) i holl aelodau mewnol ac allanol y grŵp am eu gwaith diwyd. Diolchodd hefyd i Karen Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, am y gwaith yr oedd wedi'i wneud ac am yr adroddiad rhagorol a ddrafftiwyd ar ran y Grŵp.

Amlinellodd y Cadeirydd gefndir sefydlu'r y Grŵp Tasg a Gorffen gan y Pwyllgor, a sefydlwyd yn bennaf i archwilio dulliau i gryfhau ymhellach y rhyngweithio a'r berthynas waith rhwng awdurdodau rheoli perygl llifogydd cyhoeddus a

pherchnogion glannau afonydd. Dywedodd bod holl aelodau'r Grŵp wedi dysgu cryn dipyn am swyddogaethau, cyfrifoldebau ac arferion gwaith y naill a'r llall yn ystod y gwaith. O ganlyniad i hyn roedd pawb yn cytuno bod cydweithio a chyd-ymddiriedaeth wedi cryfhau o ganlyniad i fodolaeth y Grŵp. Roedd y Grŵp hefyd wedi chwalu sawl myth cysylltiedig â chyfrifoldebau am, a'r caniatâd a geisir am waith cynnal a chadw afonydd a glannau afonydd, megis gwir nifer y ceisiadau a dderbynnir am Hawlenni Gweithgaredd Atal Perygl Llifogydd gan berchnogion tir, cyfrifoldebau o ran perchnogaeth glannau afonydd yn nalgylch Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn ac ati, sydd i gyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae gwaith y Grŵp hefyd wedi tynnu sylw at yr ystod eang o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefannau pob awdurdod rheoli perygl llifogydd yn cynnwys adran cwestiynau cyffredin hynod ddefnyddiol ar wefan Dŵr Cymru. O ganlyniad i hyn, un o argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen oedd, er mwyn hwyluso mynediad at wybodaeth i'r cyhoedd, y dylid ail-lansio tudalen Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor ei hun ac y dylai gynnwys dolenni at we-dudalennau perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Dylai'r tudalennau newydd hefyd gynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a chyfrifoldebau perchnogion glannau afonydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd y Cadeirydd, aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen a swyddogion:

- bod dealltwriaeth yr holl randdeiliaid o gyfrifoldebau'r naill a'r llall a'u perthynas waith wedi gwella yn ystod gweithrediad y Grŵp Tasg a Gorffen.
- gwnaed yr argymhelliad i weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu a chyflwyno taflen wybodaeth gyffredinol ar rolau a chyfrifoldebau awdurdodau rheoli risg a pherchnogion eiddo ar hyd Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn o ganlyniad i'r cymhlethdodau cysylltiedig â pherchnogaeth luosog glannau afon mewn ardal boblog dros ben, a chamsyniad eang mai CNC sy'n gyfrifol am ffiniau preifat sy'n cyffinio â chyrsiau dŵr. Bernir nad oes angen ymarferion tebyg mewn rhannau eraill o'r sir lle mae perchnogion tir mwy yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau;
- mae gan yr awdurdod lleol bwerau o dan y Ddeddf Draenio Tir i ymyrryd mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag er bod y pŵer hwn i ymyrryd gan yr Awdurdod Lleol, nid oes dyletswydd arno i wneud hynny.
- mae gan berchnogion tir glannau afonydd gyfrifoldebau penodol o ran peidio â rhwystro cyrsiau dŵr ac ati, ac mae hawl ddigolledu am dorri cyflenwadau dŵr naturiol yn ôl y gyfraith gyffredin.
- mae'n rhaid gwasanaethu datblygiadau newydd gyda systemau draenio dŵr wyneb a dŵr budr ar wahân, nid dyma'r achos gyda datblygiadau preswyl hŷn lle caiff dŵr wyneb a dŵr budr yn y pen-draw ei sianelu i'r un system garthffosiaeth;
- byddai dosbarthu'r adroddiad i bob cyngor dinas, tref a chymuned yn helpu i drosglwyddo gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â chyfrifoldebau rheoli perygl llifogydd i bob preswylydd a busnes yn y sir.

Pwysleisiodd aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen fanteision gwaith y Grŵp, lle cafodd problemau y tynnwyd sylw atynt mewn nifer o grwpiau a phwyllgorau eraill eu trafod yn agored gyda'r holl randdeiliaid. Cynhyrchodd hyn drafodaeth dda, agored ac adeiladol a arweiniodd at well dealltwriaeth o swyddogaethau'r naill a'r llall yn

ogystal ag o'r cyfyngiadau y mae'n rhaid i bawb weithio oddi tanynt. Roedd teimlad ymysg pawb a oedd yn gysylltiedig â gwaith y Grŵp bod lefel uchel o gyd-ymddiriedaeth a dealltwriaeth wedi'i feithrin rhyngddynt. Mae'r Grŵp felly'n dymuno parhau i gyfarfod o leiaf bob blwyddyn i drafod materion sy'n peri pryder a chynlluniau'r dyfodol.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i'r Grŵp Tasg a Gorffen am ei waith ac am yr adroddiad cynhwysfawr. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi brwdfrydedd y Grŵp dros barhau i gyfarfod ar sail flynyddol a'i awch i weithio gyda'r holl randdeiliaid tua'r dyfodol. Awgrymwyd felly bod y Grŵp yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau bob blwyddyn ar ei drafodaethau. Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***Penderfynwyd*** yn unfrydol, yn amodol ar y sylwadau uchod, diolch i'r Grŵp Tasg a Gorffen am ei waith, derbyn ei adroddiad a chymeradwyo ei gynnwys ynghyd â'r argymhellion canlynol:

***(i)*** ***Bod Gweithgor Perygl Llifogydd yn cynnwys yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd a chynrychiolwyr perchnogion tir yn parhau i gyfarfod y flynyddol er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion a disgwyliadau ac adrodd yn ôl ar y trafodaethau hyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau***

***(ii)*** ***Bod y dudalen Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ar wefan y Cyngor yn cael ei hail-lansio i gynnwys:***

- ***(a) Dolenni at we-dudalennau perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, ac***
- ***(b) eglurhad ar gyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg a Pherchnogion Glannau Afonydd,***

***(iii)*** ***a gan weithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru bod taflen wybodaeth gyffredinol yn cael ei chreu ar gyfrifoldebau perchnogion glannau afonydd a'i dosbarthu i eiddo ger Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, a***

***(iv)*** ***bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cael ei gyfieithu a'i anfon at Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned i'w gynnwys ar eu gwefannau.***

## 7 SIARTER CYDYMFFURFIAETH CYNLLUNIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd eisoes), a oedd yn gofyn bod y Pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd y Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio hyd yma. Roedd hefyd yn ceisio cefnogaeth yr aelodau ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r Siarter a/neu i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith cydymffurfiaeth cynllunio ar draws y sir.

Cyn gwahodd cwestiynau, tynnodd y Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth sylw'r aelodau at y newidiadau arfaethedig i'r Siarter, fel y'u hamlygwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dywedodd yr aelodau pa mor ddefnyddiol yr oedd y Siarter wedi bod iddyn nhw o ran delio ag ymholiadau cydymffurfiaeth cynllunio preswylwyr a'r broses o flaenoriaethu mynd i'r afael â chwynion o'r fath.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau am y Siarter a'r newidiadau arfaethedig, dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- tra bo'r Gwasanaeth yn dal i ddelio ag ôl-groniad o ymholiadau cydymffurfiaeth cynllunio, yn deillio'n bennaf o'r cyfnod clo Covid-19 cyntaf, mae'r llwyth achosion bellach yn lleihau. mae penodiad ail Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth ym mis Awst 2021 wedi helpu i leddfu'r pwysau.
- roedd rhai achosion yn hanesyddol ac yn hynod o gymhleth felly bydd angen cryn amser ac adnoddau i'w datrys;
- mae amgylchiadau lle gall y Cyngor ddatgelu enwau achwynyddion ac ati wedi'u nodi'n glir yn y rheoliadau e.e. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac ati Fodd bynnag nid ydynt yn gwahardd y Cyngor rhag rhoi gwybod i gynghorwyr neu gynghorwyr dinas, tref neu gymuned eu bod y ymchwilio i doriadau honedig. Rydym ar hyn o bryd yn edrych sut y gallwn, gan ddefnyddio'r feddalwedd sydd ar gael, roi diweddariadau rheolaidd i aelodau lleol ac aelodau cynghorau dinas, tref a chymuned am doriadau yn eu hardaloedd;
- bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gydag aelodau newydd os codwyd pryderon am ddatblygiadau diawdurdod mewn gwlad agored a choetiroedd.
- bod llawer o ymholiadau'n cael eu cyfeirio i'r broses cyn cyflwyno cais cynllunio am gyngor perthnasol ynghylch pa bryd y mae angen caniatâd cynllunio.
- bod y Siarter wedi gweithio mewn dwy ffordd wahanol, sef cyfeirio preswylwyr at y mathau o ddatblygiadau sydd neu sydd ddim angen caniatâd cynllunio, a hefyd tynnu sylw'r rhai sy'n torri'r rheoliadau at ganlyniadau posibl datblygu anheddau diawdurdod neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r amodau a bennwyd pan roddwyd caniatâd cynllunio
- mae perygl y gallai unigolion nad ydynt wedi ceisio cyngor ar gydymffurfiaeth cynllunio ac wedi datblygu neu adnewyddu eu heiddo heb y caniatâd angenrheidiol fod mewn trafferthion yn ddiweddarach os ydynt yn ceisio gwerthu eu heiddo a bod y broses chwiliadau eiddo'n dwyn materion diffyg-cydymffurfiaeth i sylw darpar brynwyr
- mae angen rheoli disgwyliadau pobl am orfodaeth ac am unioni achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn briodol.
- mae'r Siarter ddiwygiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer rhoi blaenoriaeth uchel i doriadau honedig sy'n agosáu at imiwnedd rhag camau gorfodi oherwydd bod gormod o amser wedi mynd heibio;
- bod y broses flaenoriaethu wedi'i hanelu at ddelio â thoriadau posibl mewn ffordd ymarferol. Rhoddodd swyddogion enghreifftiau o sut y bydd hyn yn cael ei wneud;
- bod y Cyngor yn gweithredu system 'tynnu sylw' sy'n amlygu achosion gydag amodau â chyfyngiad amser arnynt er mwyn rhoi rhybudd i swyddogion am yr angen i wirio bod ceisiadau preswylwyr yn parhau i

gydymffurfio â'r amodau a bennwyd ar gyfer yr eiddo cyn y dyddiad dod i ben;

- bod hyfforddiant Cydymffurfiaeth Cynllunio'n cael ei baratoi ar gyfer y Cyngor newydd; a
- bod cynghorwyr yn cael eu cynghori i weithredu fel canfyddwyr ffeithiau yn hytrach na chyfryngwyr rhwng cymdogion ar eu wardiau. Roedd yn beth doeth iddynt gyfeirio unigolion at Wasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio'r Cyngor am gyngor technegol ar faterion cynllunio a datblygu.

Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd bod â dogfen wedi'i geirio'n glir sy'n hawdd dod o hyd iddi ar wefan y Cyngor y gallant gyfeirio pobl ati a dangos bod y Cyngor yn cymryd diffyg cydymffurfiaeth ag amodau a rheolau cynllunio o ddifri ac y bydd yn gweithredu i unioni'r toriadau hyn drwy gamau gorfodi.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynodd y Pwyllgor*:**

***(i) yn amodol ar y sylwadau uchod ac ar gryfhau'r geiriad a'r cyngor mewn perthynas â thorri rheolau cynllunio ym mharagraff 1.2 o'r Siarter ddiwygiedig ddrafft, gymeradwyo'r Siarter ddrafft o'r enw 'Cydymffurfiaeth Cynllunio yn Sir Ddinbych - Siarter Cynllunio Cydymffurfiaeth (Atodiad 1);***

***(ii) cefnogi bwriad y swyddogion i gyflwyno fersiwn terfynol y Siarter i'r Swyddog Arweiniol er cymeradwyaeth; a***

***(iii) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'u hystyriaethau.***

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad ac atodiadau (eisoes wedi'u dosbarthu) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor yn barod ar gyfer ei throsglwyddo i'w olynydd-Bwyllgor ar ôl etholiadau'r awdurdod lleol ym mis Mai 2022. Penderfyniad y pwyllgor newydd wedyn fyddai symud ymlaen â'r eitemau a restrwyd yn barod neu beidio.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adroddiad ar Gam-drin Cŵn a oedd yn wreiddiol i fod i'w roi gerbron y cyfarfod hwn heddiw, wedi'i aildrefnu ar gyfer hydref 2022 oherwydd bod Staff Diogelu'r Cyhoedd yn dal yn ymgymryd â dyletswyddau Profi, Olrhain a Diogelu. Serch hynny, er mwyn rhoi tawelwch meddwl i'r aelodau ar y mater hwn paratowyd a dosbarthwyd adroddiad er gwybodaeth fel rhan o'r ddogfen friffio cyn y cyfarfod presennol.

Fel rhan o'i adolygiad rheolaidd o raglenni gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau craffu, roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi aildrefnu rhai eitemau ar bob un o raglenni gwaith i'r dyfodol y Pwyllgorau Craffu er mwyn osgoi trafod eitemau dadleuol yn y cyfnod yn arwain at y cyfnod cyn-etholiad. Roedd y rhain i'w gweld yn Atodiad 1.

Bydd yr adroddiad dilynol y gofynnwyd amdano yn ystod y drafodaeth ar eitem y Grwp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Glannau Afonydd yn cael ei gynnwys yn rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer gwanwyn 2023.

Dywedwyd wrth yr aelodau y gallant barhau i gyflwyno pynciau i'w hystyried gan Craffu ar y ffurflen yn Atodiad 2. Oni bai bod y pynciau o natur frys, byddai'r GCIGC yn ystyried y cais ar ôl etholiadau'r awdurdod lleol.

Roedd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet (Atodiad 3) a thabl yn dangos cynnydd hyd yma gyda'r argymhellion a wnaeth y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf (Atodiad 4) wedi'u cynnwys er gwybodaeth.

Mae gwaith yn awr ar y gweill i baratoi ar gyfer cynhyrchu adroddiad er gwybodaeth ar Asesiad o Effaith Cymunedol ar gymunedau'r Rhewl a Llanynys ar ôl cau'r ysgol leol. Dylai'r adroddiadau fod ar gael yn ystod yr haf.

***Penderfynodd y Pwyllgor*: yn amodol ar gynnwys yr eitem y cytunwyd arni yn ystod y cyfarfod, gadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor i'w gyflwyno i'r Pwyllgor newydd ar ôl etholiadau'r awdurdod lleol ym mis Mai 2022**

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Cyn cau'r cyfarfod estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch diffuantaf i'r Is-gadeirydd am ei holl gefnogaeth, i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith diwyd ac adeiladol ac i'r staff am eu holl gefnogaeth yn ystod tymor y Cyngor presennol. Dymunodd yn dda i bawb ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:55pm